

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLYSWEN, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Llys-wen, ym Mhowys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd fynediad i Fferm Bryndu hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A479 yn Llys-wen.

Y llwybr arall i yrwyr sy'n dymuno teithio tua'r gogledd o ben deheuol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd tua'r de-orllewin ar yr A470 hyd at ei chyffordd â'r A438, tua'r dwyrain ar yr A438 hyd at ei chyffordd â'r A479 ym Mronllys, yna tua'r gogledd ar yr A479 hyd at ben gogleddol y darn o'r ffordd sydd ar gau yn Llys-wen. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Mawrth 2025. Disgwylir i'r gwaharddiad dros dro fod yn weithredol o 07:00 o'r gloch hyd 19:00 o'r gloch bob dydd rhwng 6 Mawrth 2025 a 14 Mawrth 2025 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A470 TRUNK ROAD (LLYSWEN, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Llysven, in Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road that extends from its junction with the access road to Bryndu Farm to the centrepoint of its junction with the A479 in Llysven.


The alternative route for drivers wishing to travel north from the southern extent of the closure will be southwest on the A470 to its junction with the A438, east on the A438 to its junction with the A479 at Bronllys, then north on the A479 to the northern extent of the closure at Llysven. The route is reversed for southbound traffic.

The Order comes into force on 6 March 2025. The temporary prohibition is expected to operate from 07:00 hours until 19:00 hours each day from 6 March 2025 to 14 March 2025 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be given before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government